**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref po 42 2025

Andrew R.T. Davies
Committee Chair

AndrewRT.Davies@senedd.wales

4 Chwefror 2025

Annwyl Andrew,

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 15/01/2025**
**Rhagor o wybodaeth am y Warant i Bobl Ifanc**

Ar 15 Ionawr 2025, roeddwn yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor i drafod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/2026. Yn ystod y cyfarfod, cynigiais gyflwyno rhagor o fanylion yn ysgrifenedig am yr hyn y mae'r Warant i Bobl Ifanc (y Warant) wedi'i ddarparu i bobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r Warant yn ymrwymiad o'r Rhaglen Lywodraethu a lansiwyd ym mis Tachwedd 2021 i gynnig cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru i gael lle mewn addysg, hyfforddiant, prentisiaeth, dod o hyd i swydd, neu ddod yn hunangyflogedig. Ers ei lansio, mae dros 45,000 o bobl ifanc wedi cael cefnogaeth drwy ein rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau yn unig.

Mae'r Warant yn cael ei chynnig gyda chymorth amrywiol opsiynau cymorth cyflogadwyedd, busnes a hyfforddiant, ac mae'r gwaith atgyfeirio yn digwydd yn bennaf drwy Cymru'n Gweithio, sy'n cynnig cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaoedd yn rhad ac am ddim os ydych yn 16 oed neu'n hŷn. Yn ogystal â rhoi manylion am y prif raglenni o dan y Warant rwyf wedi darparu nifer o astudiaethau achos sy'n dod â bywyd i'r gefnogaeth a ddarperir gan y rhaglen:

Mae **Twf Swyddi Cymru+ (TSC+),** ein rhaglen flaenllaw o dan y Warant yn darparu pecyn o gymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc 16-19 oed gyda gweithgareddau hyfforddi a datblygu drwy gyflogaeth, hyfforddiant ffurfiol neu waith gwirfoddol. Hyd yn hyn, mae 13,345 o bobl ifanc wedi bod yn ymwneud â TSC+ ers lansio'r rhaglen ym mis Ebrill 2022.

Mae Amy, sy'n dod o'r Bargoed, yn enghraifft o berson ifanc yng Nghymru sydd wedi elwa ar raglen Twf Swyddi Cymru+. Cafodd Amy ddiagnosis o amhariad ar ei golwg yn 7 oed. Ymunodd ag elfen Ymgysylltu TSC+ a symudodd ymlaen yn gyflym i'r elfen Datblygu gan ei

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

galluogi i astudio ar gyfer cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 1. Darparodd y rhaglen gyllid i Amy gael gliniadur personol, a lawrlwythodd tiwtoriaid y cwrs feddalwedd priodol a oedd yn gwneud y sgrin yn fwy hygyrch, gan ei galluogi i gwblhau cyrsiau yn llawer cyflymach nag o'r blaen. Trwy gyfuniad o gyrsiau wedi'u hanelu at ysgrifennu CV a pharatoi ar gyfer cyfweliadau, llwyddodd Amy i sicrhau profiad mewn amgylchedd gwaith ac mae bellach yn dilyn gyrfa yn y diwydiant gofal plant.

Mae Cez, sy’n 17 oed ac o Sir y Fflint, yn un arall sydd wedi sicrhau lleoliad gwaith ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen. Dysgodd Cez sut i wneud cais am swydd a beth i'w gynnwys mewn CV, gyda'r tiwtoriaid hefyd yn darparu gwybodaeth am wahanol ddiwydiannau ac yn cynnig ffyrdd newydd o ddysgu wedi'u teilwra i'w hanghenion. Yn dilyn y cyngor a'r gefnogaeth gyrfaoedd a gafodd drwy diwtoriaid Twf Swyddi Cymru+, cafodd Cez gyfweliad, a llwyddodd i sicrhau lleoliad mewn asiantaeth tai leol.

Mae **Cymunedau am Waith +** yn darparu cymorth a gwasanaeth mentora arbenigol ar gyfer unigolion NEET a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau cymhleth rhag cyflogaeth, sy'n 16 oed neu'n hŷn. Hyd yn hyn, mae 9,750 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y rhaglen.

Mae Jade, mam ifanc o Dorfaen sydd â rhwystrau cymhleth, wedi manteisio ar y gefnogaeth a ddarparwyd gan Cymunedau am Waith+. Roedd Jade yn fam llawn amser a oedd eisoes wedi cwblhau cwrs gwallt a harddwch yn y coleg, ond nid oedd yn siŵr o'r camau nesaf yn ei gyrfa. Trwy'r cymorth a ddarparwyd gan Cymunedau am Waith+ o ran cyngor, arweiniad a pharatoi ar gyfer cyfweliad, llwyddodd Jade i wneud cais am rôl wirfoddoli mewn Cynllun Chwarae yn Nhorfaen. Yna gwnaed trefniadau i Jade gwblhau cwrs gofal plant, gan ei galluogi i wneud cais llwyddiannus am swydd â thâl yn y Cynllun Chwarae.

Mae **Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru** yn darparu rhaglen o weithgareddau sy'n cryfhau'r ddealltwriaeth, yr ymwybyddiaeth a'r ddarpariaeth o addysg alwedigaethol, safonau sgiliau, hyfforddiant a llwybrau gyrfa ar gyfer dysgwyr, ymarferwyr a busnesau yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn annog ymgysylltiad a chyfranogiad mewn cystadlaethau sgiliau i godi safonau ar gyfer cystadleuwyr ac ymarferwyr; yn cefnogi cystadleuwyr cenedlaethol a rhyngwladol i ddatblygu eu sgiliau i safon fyd-eang ac yn darparu datblygiad proffesiynol penodol i'r sector i ymarferwyr a rheolwyr hyfforddiant yng Nghymru. Yn 2024 – 2025 bu'r rhaglen yn ymwneud â 1,500 o bobl ifanc mewn cystadlaethau lleol ledled Cymru.

Yn rownd derfynol WorldSkills yn Lyon ym mis Medi 2024, bu 6 myfyriwr o Gymru yn cystadlu fel rhan o Dîm y DU, gydag un cystadleuydd o Gymru, Ruben Duggan, yn ennill medal arian. Daeth bron i draean o dîm hyfforddi WorldSkills UK o'r sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Yn rowndiau terfynol diweddar WorldSkills y DU a SkillBuild ym mis Tachwedd 2024, daeth Cymru i'r amlwg fel rhanbarth cryf yn y gystadleuaeth. Enillwyd cyfanswm o 70 o fedalau gan y 118 o gystadleuwyr o Gymru, gan baratoi'r ffordd i Gymru gynnal Rownd Derfynol WorldSkills y DU am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2025.

Mae **Syniadau Mawr Cymru** yn cynorthwyo pobl ifanc i oresgyn heriau rhag bod yn hunangyflogedig. Mae'n helpu pobl ifanc i ddysgu am fusnes, gweithio gyda chynghorydd i baratoi ar gyfer hunangyflogaeth ac o bosibl gael mynediad at grant ariannol i helpu i ddechrau busnes.

Ers 2021, mae Syniadau Mawr Cymru wedi cynnal 6,283 gweithdy, dan arweiniad entrepreneuriaid, i gyrraedd 240,343 o bobl ifanc dan 25 oed. Yn y cyfnod hwnnw, mae 3,646 o bobl ifanc 16-24 oed wedi bod yn rhan o'r rhaglen cychwyn busnes sy'n darparu cyngor ac arweiniad busnes. Lansiwyd y Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes ym mis Gorffennaf 2022 ac mae wedi darparu cymorth ariannol i 609 o unigolion economaidd

anweithgar a di-waith gyda grant o hyd at £2,000 i ddechrau eu busnes eu hunain, ochr yn ochr â phecyn o gymorth a chyngor busnes. Yn dilyn y gefnogaeth (ariannol ac anariannol) mae 669 wedi mynd ymlaen i ddechrau busnes.

Lansiodd Poppi, entrepreneur 20 oed o Gastell-nedd Port Talbot, ei busnes arlwyo ei hun diolch i'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Syniadau Mawr Cymru. Mynychodd Poppi gyrsiau coginio ac arlwyo, cwblhaodd gyrsiau Lefel 2 Hylendid ac Iechyd ac Ymwybyddiaeth Alergedd a derbyniodd gyngor ac adnoddau gwerthfawr sydd wedi ei helpu i lansio ei busnes ei hun. Derbyniodd Poppi hefyd gefnogaeth Syniadau Mawr Cymru wrth wneud cais llwyddiannus am Grant Rhwystrau rhag Busnes o £2,000 a aeth tuag at fwy o offer ar gyfer ei busnes.

Mae **ReAct+** yn darparu cymorth grant ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, costau teithio a gofal sy'n gysylltiedig â hyfforddiant i'r rhai sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur, sy'n 20 oed neu'n hŷn. Mae'r grant wedi'i dargedu at y rhai sydd dan rybudd ffurfiol o ddiswyddo, y rhai sydd wedi cael eu diswyddo yn ystod y chwe mis diwethaf, cyn-droseddwyr a throseddwyr sy'n cyflawni dedfrydau cymunedol. Mae'r rhaglen wedi cefnogi 726 o bobl ifanc ers ei lansio ym mis Mehefin 2022.

Mae'r rhaglen wedi helpu pobl fel Luke, dyn 24 oed o Gwmfelinfach, i ddechrau ei yrfa ddelfrydol ar ôl iddo gael ei ddiswyddo ychydig cyn genedigaeth ei blentyn cyntaf. Cyfarfu Luke â chynghorydd Cymru'n Gweithio i drafod ei uchelgais o ran gyrfa a dechreuodd y ddau ddatblygu pecyn cymorth a fyddai'n ei helpu i ddychwelyd i gael swydd. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer yr holl gyrsiau hyfforddi hanfodol angenrheidiol er mwyn i Luke lwyddo i newid gyrfa.

Mae **prentisiaethau** yng Nghymru yn cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ochr yn ochr ag astudiaeth ychwanegol, gan ganiatáu i brentis ennill profiad gwaith, dysgu sgiliau newydd a chael cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol tra'n ennill cyflog. Dechreuodd y Warant ym mis Tachwedd 2021, ac mae’r ffigurau ar wefan Medr yn dangos bod dros 20,600 o brentisiaethau wedi’u dechrau ers trydydd chwarter 2021/22.

Cafodd Sayfan Iqbal, prentis creadigol 22 oed o Gaerdydd, ei ddewis o blith cannoedd o ymgeiswyr am brentisiaeth amser llawn ym Mhencadlys ITV Cymru Wales ym Mae Caerdydd. Cafodd Safyan ei eni â chlyw gwael, a waethygodd dros amser nes iddo gael llawdriniaeth yn 11 oed i osod mewnblaniad yn y cochlea a'i helpodd i glywed yn well. Fel rhan o'i brentisiaeth dysgodd amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys sut i drin camerâu a ffilmio a golygu fel rhan o'i uchelgais i fod yn weithredwr camera neu wneuthurwr ffilmiau.

Rwy'n gobeithio fy mod wedi gallu tynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed gyda'r Warant i Bobl Ifanc, a dangos yr effaith wirioneddol ac ystyrlon ar bobl ifanc Cymru.

Yn gywir

**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership